**Rhif: 2**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C17/0437/22/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **27/04/2017** |
| **Math y Cais:** | **Llawn - Cynllunio** |
| **Cymuned:** | **Llanllyfni** |
| **Ward:** | **Penygroes** |
| **Bwriad:** | **Gosod mast telethrebu 21m o uchder gan gynnwys gorsaf radio, 3 antena, 2 gabinet offer, cyfarpar offer cysylltiedig ynghyd a ffens diogelwch 1.8 o uchder** |
| **Lleoliad:** | **Tir ger Penygroes Telephone Exchange, Ffordd Y Sir, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd, LL546HE** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | CANIATAU GYDAG AMODAU |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Daw'r cais hwn yn ôl ger bron y Pwyllgor yn sgil y penderfyniadau a wnaethpwyd i ohirio yn y Pwyllgor Cynllunio ar 04.09.17. Cais i osod tŵr telathrebu 21m o uchder yw hwn. Fe fyddai'r tŵr ar ffurf 'lattice' ar lawr o goncrid gyda 2 antenna a 2 lloeren ar ei ben, 3 cabinet offer a mesur ar y llawr a chodi ffens 1.8m o uchder oddi amgylch i greu compownd.

1.2 Mae'r safle wedi ei leoli ar gyrion Penygroes i gefn safle cyfnewidfa ffôn sydd yn cynnwys adeilad unllawr parhaol, mynedfa gerbydol oddi ar y ffordd gyhoeddus gyfochrog a mannau troi a pharcio. Mae'r mynediad cerbydol i mewn i'r safle oddi ar y briffordd gyfagos i'r gogledd gyda ffens postyn a weiren yn amgylchynu'r safle ei hun. Mae tai preswyl yr ochr bellaf i'r ffordd gyhoeddus i gyfeiriad y gogledd, gorllewin a'r dwyrain ag ymhellach i'r de tra bod caeau amaethyddol agored i gyfeiriad y de a'r dwyrain. Gwelir hefyd fod y canlynol gerllaw, Ysgol Gynradd Bro Lleu, Ysgol Uwchradd Dyffryn Nantlle a Chanolfan Hamdden Plas Silyn. Mae nifer o goed a pherthi sefydledig o fewn y safle ag ar dir cyfochrog.

1.3 Mae'r bwriad yn golygu codi codi'r tŵr o wneuthuriad dur. Yn ogystal, codir 3 cabinet safonol o amrywiol faint ag o orffeniad gwyrdd ger gwaelod y tŵr gyda ffens 1.8m yn amgylchynu. Gwelir fod safle'r cais ar lefel tir sydd yn is na'r adeilad presennol ag oherwydd hyn, dangosir y bydd grisiau yn cael eu creu fel mynedfa tuag at y safle o'r tir uwch. Nodir o'r wybodaeth a gyflwynwyd mai'r bwriad yw cyflawni amcan y Llywodraeth i ddarparu cyflenwad signal 4G ble nad yw'n bodoli eisoes mewn ardaloedd gwledig.

1.4 Mae'r dogfennau isod wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais:

- Declaration of Conformity with the International Commission on Non-Ionizing Radiation Protection (ICNIRP) Public Exposure Guidelines
- Radio Planning and Propagation
- Llythyr Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Datganiad yn rhoddi Gwybodaeth Gyffredinol am ddatblygiadau Telathrebu
- Copïau o lythyrau ymgynghoriad a yrrwyd cyn cyflwyno cais
- Adroddiad o Arolwg Panoramig

1.5 Cyflwynwyd ymholiad cyn cyflwyno cais ar gyfer y bwriad. Nodir yma fod lleoliad y datblygiad wedi ei ddiwygio o'r hyn a ddangoswyd yn wreiddiol ar gyfer yr ymholiad cyn cyflwyno cais. Roedd lleoliad y datblygiad bryd hynny i ochr y safle, ond fe'u cynghorwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol y byddai ei ail leoli i gefn y safle yn welliant gan y byddai'n cael ei sgrinio yn well gan yr adeilad presennol ag y byddai ymhellach i ffwrdd o dai preswyl cyfagos. Cyflwynwyd y cais yn ffurfiol gyda'r lleoliad wedi ei ddiwygio.

1.6 Mewn ymateb i'r pryderon a leisiwyd ym Mhwyllgor 03.07.17 mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth ychwanegol sy'n cyfiawnhau lleoli'r mast ar y safle arbennig hwn:-

- Safle wedi ei leoli ger llecyn o dir sydd wedi ei ddynodi ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - nid yw'r pryder hwn yn faterol i'r cais cyfredol gan nad oes cais cynllunio wedi ei gyflwyno eto a hyd yn oed pe tai cais wedi ei gyflwyno ni fydd gosod mast ar y safle hwn yn tanseilio'r dynodiant hyn. Pe tai wedi eu codi ar y safle dynodedig hwn, ni fuasai mast o'r math hwn yn amharu'n andwyol ar ddarpar

ddeiliaid y tai ar sail creu strwythur gormesol a chreu cysgodion gan ystyried dyluniad a ffurf strwythurol ysgafn y mast ei hun.

- Nid yw cyngor na chyfarwyddiadau cynllunio lleol na chenedlaethol yn datgan ni ellir lleoli mastiau telathrebu o fewn neu gyferbyn ac ardaloedd preswyl. Yn wir, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi datgan eu cefnogaeth i uwchraddio a darparu system gyfathrebu y genhedlaeth nesaf drwy gydol Cymru ac maent yn disgwyl i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol benderfynu ar geisiadau cynllunio am seilwaith symudol cyn gynted a phosibl (e.e. ar gyfer y gwasanaeth brys) er mwyn sicrhau nad oes oedi diangen wrth sefydlu'r fath rhwydwaith.

- Mae'r Grŵp Seilwaith Prydeinig o Aelodau Seneddol eisoes wedi yn datgan ers 2016 bydd rhaid i bob gweithredydd lledaenu eu hymdriniaeth symudol gyda therfyn amser wedi ei bennu o Ragfyr, 2017.

- Nid yw signal 3G na 4G, o'u natur, yn gallu trafeilio pellteroedd hir ac, felly, mae'n anorfod bod y mastiau a'r offer cysylltiedig wedi eu lleoli yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd o fewn neu gyferbyn ac ardaloedd preswyl.

- Credir bod safleoedd mwy addas ar gyfer codi'r mast yng nghyffiniau Penygroes - yn unol â gofynion statudol mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno rhestr o 10 safle arall yn nalgylch y pentref (cyn dewis ar y safle arbennig hwn) ac wedi eu diystyru ar sail ni fuasent yn caniatáu ymdriniaeth ddigonol, safleoedd eraill wedi eu lleoli y tu allan i'r ardal chwilio, llwybrau cul, llinellau trydan, tai dwysedd uchel, agosatrwydd i dai heb sgrinio digonol ynghyd a diffyg gofod/bylchau.

- Effaith ar iechyd trigolion lleol a phlant ysgol - mae'r ymgeisydd wedi ymgymryd ag asesiad amledd (*frequency*) radio ar gyfer y safle arbennig hwn. Mae'r asesiad yn dod i'r canlyniad bydd lefel dwysedd tonnau radio o'r mast arfaethedig llawer is na'r hyn a nodir gan yr *International Commission on Non-ionising Radiation Protection (ICNRP)* ac mae'r canllawiau hyn wedi eu cefnogi gan Sefydliad Iechyd y Byd ac yn destun adolygiad o bryd i bryd. Mae Datganiad Cydymffurfio gyda'r canllawiau hyn (cyf. 1999/519/E) eisoes wedi ei gyflwyno gyda'r cais yn wreiddiol.

- Mae Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu yn datgan ni ddylai awdurdodau cynllunio lleol geisio dyblygu rheolaethau'r gyfundrefn iechyd a diogelwch trwy'r system gynllunio. Mater i'r Awdurdod Gweithredol ar Iechyd a Diogelwch (HSE) yw gorfodi deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn y maes hwn. Unwaith y bydd mast yn weithredol, os oes tystiolaeth neu bryder nad yw'r gweithredwr yn ysgwyddo'i gyfrifoldebau mewn achos penodol gall yr HSE ymchwilio ac, os oes angen, orfodi gweithredu.

1.7 Yn dilyn y drafodaeth o'r cais ym Mhwyllgor Cynllunio 05.09.17, derbyniwyd gohebiaeth gan yr ymgeisydd yn datgan ei fwriad i gyflwyno eglurhad bellach o'r cynllun mewn ymateb i'r pryderon a godwyd gan aelodau. Nid yw'r wybodaeth hon wedi dod i law ar adeg ysgrifennu'r adroddiad ac felly fe adroddir ar unrhyw wybodaeth bellach a dderbynnir ar y ffurflen sylwadau ychwanegol a'i dosbarthir cyn cyfarfod y Pwyllgor.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae

ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS 3: Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
PCYFF1: Ffiniau datblygu
PCYFF 2: Meini prawf datblygu
PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
PCYFF 4: Dylunio a thirweddu
TRA4:Rheoli ardrawiadau cludiant

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru Fersiwn 9, 2016
Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu

Cyhoeddwyd llythyr gan Brif Gynllunydd Llywodraeth Cymru dyddiedig 29.11.16 yn datgan bod Polisi Cynllunio Cymru yn annog awdurdodau cynllunio lleol i ymateb yn gadarnhaol i gynigion telathrebu wrth gymryd i ystyriaeth y cyngor ar ddiogelu ardaloedd trefol a gwledig. Mae ceisiadau o’r fath yn rhan o fframwaith y Llywodraeth ar gyfer gwneud y wlad yn genedl ddigidol.

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Cais 3/22/123 – cyfnewidfa ffon – caniatawyd 12.12.77

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Dim gwrthwynebiad i’r cais |
| Uned Drafnidiaeth: | Dim sylw gan na thybir y byddai yn cael effaith ar unrhyw ffordd |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn: | Dim gwrthwynebiad |
| Uned Bioamrywiaeth: | Dim gwrthwynebiad |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Dim sylwadau os yn cwrdd safonau ICNIRP |

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle ag yn y wasg leol a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd llythyrau / gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail:

- Diffyg ymgynghori gyda'r gymdogaeth leol
- Effaith tonnau radio ar blant yr ysgolion lleol
- Effaith niweidiol ar safle tai sydd wedi ei ddynodi yn gyfochrog a safle'r cais o safbwynt effaith gormesol, sŵn, amharu ar fwynderau preswyl a gweledol, anallu i ddarparu tai gan gynnwys tai fforddiadwy ar safle sydd wedi ei ddynodi, diffyg cydymffurfiaeth gyda pholisïau perthnasol

Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau nad oedd yn wrthwynebiadau cynllunio dilys oedd yn cynnwys:

- Colli golygfa

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLL) yw'r 'Cynllun Datblygu' mabwysiedig ac yn yr achos yma, credir fod egwyddor y bwria dyn unol a gofynion cyffredinol Polisiau PS3, PCYFF1, PCYFF2, PCYFF3 a TRA4 o'r CDLL.

5.2 Mae gofynion cyffredinol Polisï PS3 yn caniatáu cynigion isadeiledd bydd yn ceisio estyn neu wella cysylltiadau trwy gyfrwng y technolegau cyfathrebu presennol a rhai sy'n cael ei datblygu h.y. band llydan cyflymder uchel, ffonau symudol a datblygiad ym mhob rhan o ardal y Cynllun yn amodol ar fesurau amddiffyn priodol. Mae Pennod 12 o Bolisi Cynllunio Cymru (Fersiwn 9, 2016) yn datgan bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod seilwaith telathrebu fforddiadwy, diogel sy'n hygyrch dros ardal eang yn bwysig i ddiasyddion a busnesau ledled Cymru ac fe all fod yn fodd o hybu economi ffyniannus. Mae Polisi PCYFF1 yn cymeradwyo cynigion sydd wedi eu lleoli oddi fewn i ffiniau datblygu yn unol â pholisïau a chynigion eraill y CDLL, polisïau cynllunio cenedlaethol ac ystyriaethau cynllunio eraill. Yn yr achos hwn mae'r safle wedi ei leoli tu mewn i ffin datblygu Penygroes ac ystyrir bod egwyddor y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol gan ei fod yn gwneud defnydd da o ran o safle sydd eisoes wedi ei ddatblygu (ar ffurf cyfnewidfa deliffon) a'i fod trwy hynny yn cydymffurfio gyda gofynion cyffredinol Polisi PCYFF1.

5.3 Mae Polisi PCYFF2 a PCYFF3 yn datgan dylai cynigion wneud y defnydd gorau o dir a sicrhau na fydd unrhyw gynnig yn cael effaith andwyol sylweddol ar iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol, defnyddiau tir neu eiddo arall neu nodweddion yr ardal leol oherwydd mwy o weithgareddau, aflonyddwch, sŵn neu ffurfiau eraill o aflonyddwch neu lygredd. Caniateir cynigion dim ond os gellir sicrhau eu bod yn parchu cyd-destun safle a'i le yn y dirwedd lleol, ei effaith ar y stryd wedd a'r dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol lleol, eu bod yn ystyried iechyd a lles defnyddwyr y dyfodol a'u bod yn cynnwys isadeiledd ar gyfer telegyfathrebu a gwybodaeth cyfoes. Credir, o ystyried yr asesiad hwn, bod y cais yn cydymffurfio a gofynion y polisïau arbennig hyn.

5.4 Mae'r ymgeisydd wedi nodi o fewn dogfennau'r cais cynllunio ynghyd a'r ymateb i bryderon a gyflwynwyd yn dilyn y cyfnod hysbysu statudol y rhesymau pam fod y lleoliad yma wedi ei ddewis ar gyfer y datblygiad, gan nodi ei fod yn rhan o amcan y Llywodraeth i ledaenu signal ffon 4G i lefydd ble nad yw'n bodoli'n barod, ac yn benodol ardaloedd gwledig.

5.5 Mae *"Declaration of Conformity with the International Commision on Non-Ionizing Radiation Protection (ICNIRP) Public Exposure Guidelines"* wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais gerbron, sydd yn cadarnhau fod y datblygiad wedi ei ardystio i gydymffurfio a chanllawiau'r 'ICNIRP' sef canllaw cydnabyddedig ar gyfer y math yma o ddatblygiad. Fel y cyfeiriwyd ato eisoes, mae'r ymgeisydd wedi ymgymryd ag asesiad amledd radio ar gyfer y safle arbennig hwn ac mae'r canlyniadau yn cadarnhau bod lefel dwysedd tonnau radio o'r mast arfaethedig llawer yn is na'r hyn a nodir gan ICNIRP eu hunain (yn wir, mae'r lefelau yn gannoedd os nad miloedd gwaith is na'r lefelau rhagofalus sydd wedi eu gosod gan ICNIRP).

5.6 Derbyniwyd gwrthwynebiad ar sail pryder am effaith y datblygiad ar iechyd, ac yn benodol ar iechyd plant yr ysgolion lleol gerllaw. Un o amcanion Polisi PS3 o'r CDLL yw i sicrhau bod mesuriadau amddiffynnol priodol mewn lle ar gyfer datblygiadau technoleg cyfathrebu gan, er enghraifft, cydymffurfio gyda canllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Amddiffyn rhag Ymbelydriad Anïoneiddiol (ICNIRP). Disgwylir i bob gorsaf newydd fodloni canllawiau'r ICNIRP. Derbyniwyd gwybodaeth yn dangos cydymffurfiaeth gyda'r safonau yma. Er y cydnabyddir fod pryder wedi ei godi ynglŷn ag effaith posib, ni ystyrir fod y bwriad yma yn groes i'r polisïau cenedlaethol na'r CDLL ac nid oes angen rhagor o wybodaeth i asesu effaith posib y datblygiad. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn datgan yn glir mewn perthynas â goblygiadau datblygiad arfaethedig o'r fath i iechyd mai barn Llywodraeth Cymru yw na ddylid bod angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried ymhellach unrhyw effeithiau iechyd na'r pryderon amdanynt wrth brosesu cais am ganiatâd cynllunio neu gymeradwyaeth o flaen llaw os yw'r datblygiad yn bodloni gofynion ICNIRP.

5.7 Mae'n arferol gosod amod i sicrhau fod yr offer yn cael ei symud o'r safle a bod gwaith adfer priodol yn cael ei wneud petai'r angen ar gyfer yr offer yn dod i ben. Ar sail yr uchod credir fod egwyddor y datblygiad yn dderbyniol ag yn cydymffurfio gyda gofynion cyffredinol y polisïau perthnasol.

**Mwynderau gweledol**

5.8 Gyda'r math yma o ddatblygiad, mae'n anorfod y byddai'r prif strwythur arfaethedig yn rhannol weladwy o fannau cyhoeddus oherwydd yr angen iddo fod mewn lleoliad weddol agored er mwyn sicrhau y byddai'n gweithio i'w gapasiti llawn. Er hynny, credir yn yr achos yma fod cefn len adeiledig a naturiol bresennol o edrych at y safle o gyfeiriad y gogledd, gogledd-orllewin a'r gogledd-ddwyrain oherwydd presenoldeb coed aeddfed ag adeilad y gyfnewidfa ffon.

5.9 Er fod y safle yn ymylu a chefn gwlad agored, mae'r ardal gyfagos yn cynnwys amrywiol ddefnydd gan gynnwys ysgolion, canolfan hamdden a thai preswyl sydd yn golygu fod nifer o amrywiol adeiladau o ran maint ag edrychiadau. Mae nifer o strwythurau main ag uchel yn bodoli eisoes yn yr ardal, megis polion trydan a golau stryd ac fel gwelir ymhellach i ffwrdd (oddeutu 340m) i gyfeiriad y de-ddwyrain, fod peilonau trydan yn croesi'r tir. Mae'r tai preswyl agosaf rhwng oddeutu 50m a 90m i ffwrdd o safle'r cais i gyfeiriadau gwahanol. Cydnabyddir y bydd y math yma o ddatblygiad yn anorfod yn cael rhywfaint o effaith weledol ar y tai agosaf yma, ond ni ystyrir y byddai'r effaith yn sylweddol yn yr achos yma.

5.10 O edrych at y safle o gyfeiriad y dwyrain, mae tai preswyl a ffurf adeiledig y pentref ar y gorwel ac felly ni chredir fod y lleoliad arfaethedig yn gwbl agored o safbwynt yr hyn sydd i weld oddi amgylch. Credir felly fod gofynion cyffredinol Polisi PCYFF3 o'r CDLL yn cael eu bodloni.

5.11 Mae'n fwriad i osod amod i gytuno ar orffeniad y mast, credir fod hyn yn dderbyniol yn yr achos yma er mwyn sicrhau y byddai yn ymdoddi i'r amgylchedd leol. Mae'r offer cysylltiol sef y cabinets a'r ffens oddi amgylch, yn ogystal yn dderbyniol oherwydd eu gorffeniad ac yn bennaf, oherwydd bod safle'r cais ar lefel tir sydd yn is na'r adeilad presennol gerllaw. O ran gorffeniadau, credir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt gofynion Polisi PCYFF3. Credir hefyd ei bod yn briodol cynnwys amod i gytuno ar fesurau tirlunio pellach ar gyfer y safle, o wneud hyn, mae gofynion Polisi PCYFF4 yn cael ei fodloni.

5.12 Strwythur main a syml yw hwn yn y bôn, sydd yn annhebygol o gael effaith amlwg hir dymor ar fwynderau gweledol yr ardal leol. Credir fod y bwriad o safbwynt yr elfen yma yn dderbyniol ac felly yn bodloni gofynion Polisi PCYFF3 sy'n datgan na ddylai'r datblygiad gael effaith niweidiol ar y dirwedd.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.13 Mae gwybodaeth wedi ei gyflwyno gyda'r cais sydd yn rhestru safleoedd eraill ger y safle a ystyriwyd cyn penderfynu ar y safle yma. Gwelir fod rhain yn cael eu diystyru am amrywiol resymau gan gynnwys effaith niweidiol tebygol amlwg ar fwynderau preswyl a chyffredinol o fewn yr ardaloedd penodol hynny, dim cytundeb gan y tirfeddianwyr i ddefnyddio'r safleoedd a adnabuwyd, ni fyddai'r signal cystal yn y mannau hyn a materion technegol eraill. Cydnabyddir felly fod ymgais wedi ei wneud i ganfod safleoedd eraill ond mai dyma sydd wedi ei adnabod ar gyfer y bwriad oherwydd ei addasrwydd o safbwynt materion technegol ag effaith ar fwynderau.

5.14 Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn achosi niwed arwyddocaol o safbwynt sŵn a thonfedd trydan/radio, ac na fyddai yn amharu ar fwynderau cyffredinol a phreswyl yr ardal gyfagos o safbwynt yr agweddau yma. Cydnabyddir fod tri safle amlwg gerllaw sydd yn golygu fod presenoldeb cyson o blant yn yr ardal. Mae adeilad y Ganolfan Hamdden oddeutu 60m o safle'r cais, adeilad Ysgol Bro Lleu oddeutu 160m i ffwrdd ag adeilad agosaf Ysgol Dyffryn Nantlle oddeutu 190m i ffwrdd. Derbynnir fod tiroedd y safleoedd hyn gan gynnwys rhan o safle Ysgol Bro Lleu sydd yn cynnwys offer chwarae, yn nes na'r adeiladau eu hunain ond fel y sonnir uchod, mae gwybodaeth wedi ei dderbyn sy'n cadarnhau fod y datblygiad wedi ei ardystio i gydymffurfio a chanllawiau ICNIRP, er gwaethaf pryder cyhoeddus ynglŷn ag effaith ar iechyd. Ni chredir felly fod y bwriad yn annerbyniol o safbwynt gofynion Polisi PCYFF2 o'r CDLL.

5.15 Credir fod y safle yma yn addas o ran ei leoliad ac yn dderbyniol o safbwynt ei effaith ar fwynderau cyffredinol a phreswyl yr ardal ac felly yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion Polisi PCYFF 2 a PCYFF3 o'r CDLL.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.16 Mae lleoliad y strwythur a'r holl offer cysylltiol ym mhen pellaf y safle bresennol, ni fyddai yn amharu mewn unrhyw ffordd ar symudiadau cerbydau i mewn ac allan o'r safle ei hun. Er y byddai yn rhannol weladwy o ffyrdd cyhoeddus cyfagos, ni wrthwynebir y bwriad gan yr Uned Drafnidiaeth ac felly ni chredir fod unrhyw bryder o safbwynt cydymffurfio gyda gofynion Polisi TRA4 o'r CDLL.

**Unrhyw ystyriaethau eraill**

5.17 Fel sydd eisoes wedi ei nodi uchod, cyflwynwyd ymholiad cyn cyflwyno cais ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig hwn. Diwygiwyd y bwriad o ganlyniad i awgrymiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol trwy ail leoli'r mast i gefn y safle a thu ôl i adeilad y gyfnewidfa ffon.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.18 Yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus gan gynnwys rhoddi rhybudd yn y wasg leol, gosod rhybudd cyhoeddus ar y safle a gyrru llythyrau i gymdogion cyfagos, derbyniwyd sylwadau yn nodi'r canlynol, ac ystyrir fod yr adroddiad uchod yn delio yn llawn gyda'r materion hyn:

- Diffyg ymgynghori gyda'r gymdogaeth leol
- Effaith tonnau radio ar blant

5.19 Derbyniwyd gwrthwynebiad i'r bwriad gan ymgynghorwyr cynllunio ar ran cymdeithas tai o safbwynt effaith niweidiol y datblygiad ar dir sydd wedi ei ddynodi yn gyfochrog a safle'r cais ar gyfer datblygiad preswyl o safbwynt effaith gormesol, sŵn, amharu ar fwynderau preswyl a gweledol, anallu i ddarparu tai gan gynnwys tai fforddiadwy ar safle sydd wedi ei ddynodi, diffyg cydymffurfiaeth gyda polisïau perthnasol.

5.20 Mae rhan o'r tir cyfochrog wedi ei ddynodi ar gyfer tai yn y CDLL ond nid oes unrhyw gais cynllunio wedi ei gyflwyno ar gyfer datblygu'r tir yma i bwrpas preswyl hyd yn hyn. Ni chredir felly fod modd asesu'r bwriad presennol yma gyda'r hyn a all ddigwydd rhyw dro yn y dyfodol ar y tir hwn. Ni chredir ychwaith pe byddai caniatâd yn cael ei roi ar gyfer y cais presennol yma, y byddai hyn yn atal datblygiad tai yn y dyfodol ar y tir cyfochrog, mae modd dylunio cynllun sydd yn ystyried unrhyw gyfyngiadau perthnasol (os yn wir y byddai mast fel yma yn cyfyngu datblygu ar dir cyfochrog).

## 6. Casgliadau:

6.1 O ystyried yr uchod ynghyd a'r wybodaeth ychwanegol sydd wedi ei gyflwyno gan yr ymgeisydd ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol gan gynnwys polisiau a chanllawiau lleol a chenedlaethol a'r holl sylwadau a dderbyniwyd, ni chredir fod y bwriad i godi mast telathrebu fel y ceir yma yn annerbyniol a'i fod oherwydd hynny yn cydymffurfio gyda gofynion y polisiau perthnasol fel y nodir uchod.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatau – amodau

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda cynlluniau
3. Tynnu'r mast a'r offer cysylltiol ac adfer y tir os yw'r defnydd yn dod i ben.
4. Tirlunio
5. Amod lliw mast a'r antena/lloeren
6. Amod lliw ffens